
Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â nodi a monitro'r defnydd o adnoddau logisteg, yn cynnwys nodi'r adnoddau priodol, a chynllunio sut i'w defnyddio. Mae hefyd yn cynnwys monitro'r defnydd o adnoddau i wella perfformiad. Gallai hyn gynnwys monitro adnoddau amgylcheddol ac ailgylchu.

Mae'r safon hon yn berthnasol i bob gweithredwr ar bob lefel mewn gweithrediadau logisteg. Gallai gweithredwyr, er enghraifft, fod yn gweithio ym maes warws a storio, swyddfeydd trafndiaeth neu anfon cludiant ymlaen. Gallai'r safon fod yn berthnasol i'r rheiny sy'n gofalu am nifer o staff a chynnwys cyfrifoldeb rheolwr llinell.

Nodi a monitro'r defnydd o adnoddau logisteg

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. nodi'r mathau o adnoddau a ddefnyddir ar gyfer gweithrediadau logisteg
2. nodi argaeledd, galw a chost ar gyfer adnoddau logisteg yn eich sefydliad
3. nodi'r ffactorau a allai effeithio ar y defnydd o adnoddau logisteg
4. cynllunio sut gallai adnoddau logisteg gael eu defnyddio i fodloni anghenion busnes a chynyddu proffidioldeb yn eich sefydliad
5. cynyddu'r defnydd o adnoddau logisteg i gael cydbwysedd o ran defnydd a pherfformiad
6. cyfathrebu gyda, a hysbysu cydweithwyr o'u cyfrifoldebau sefydliadol yn unol â defnyddio adnoddau logisteg
7. monitro'r defnydd o adnoddau logisteg i nodi unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol ar yr amgylchedd
8. nodi ffyrdd o leihau, aildefnyddio, rhannu, ailgylchu neu wella adnoddau logisteg
9. cofnodi gwaith a wneir yn y system wybodaeth a chofnodi berthnasol, yn unol â gweithdrefnau sefydliadol
10. cydymffurfio â gweithdrefnau sefydliadol a'r holl ofynion cyfreithiol, amgylcheddol, iechyd a diogelwch, boddiodigolwch a gweithredu perthnasol yn ymwneud â'r defnydd o adnoddau logisteg

Nodi a monitro'r defnydd o adnoddau logisteg

**Gwybodaeth a
dealltwriaeth**

*Mae angen i chi wybod
a deall:*

1. y mathau o adnoddau a ddefnyddir mewn gweithrediadau logisteg penodol
2. sut i nodi argaeledd, y galw a'r gost ar gyfer adnoddau logisteg yn eich sefydliad
3. y ffactorau a allai effeithio ar y defnydd o adnoddau (e.e. cytundebau lefel gwasanaeth a Dangosyddion Perfformiad Allweddol)
4. y dulliau ar gyfer gwneud y defnydd gorau o adnoddau a chyfathrebu gofynion defnyddio adnoddau i gydweithwyr
5. y mathau o broblemau sydd yn gysylltiedig â defnyddio mathau gwahanol o adnoddau logisteg
6. y ffynonellau gwybodaeth am ddeddfwriaeth a rheoliadau perthnasol sy'n effeithio ar weithrediadau logisteg, yn cynnwys deddfwriaeth amgylcheddol
7. y dulliau a ddefnyddir gan y sefydliad i fonitro'r defnydd o adnoddau logisteg
8. sut gellir gwella'r defnydd o adnoddau logisteg
9. y rolau, y cyfrifoldebau a'r systemau rheoli sy'n berthnasol i weithrediadau logisteg yn eich sefydliad
10. y systemau gwybodaeth a chofnodi, y systemau monitro a'r dulliau cyfathrebu a ddefnyddir gan eich sefydliad
11. y gweithdrefnau sefydliadol a'r holl ofynion cyfreithiol, amgylcheddol, iechyd a diogelwch, boddidiogelwch a gweithredu perthnasol yn ymwneud â'r defnydd o adnoddau logisteg

Geirfa

Cydweithwyr: parhaol, dros dro, staff asiantaeth, allanol

Gofynion amgylcheddol, cyfreithiol, diogelwch a gweithredu:
rheoliadau diogelwch, codau ymarfer, cyfyngiadau llwyth, rheoliadau
amser gweithio, rheoliadau trafndiaeth, arferion gweithio,
gweithdrefnau gweithredu, canllawiau'r diwydiant

Adnoddau: systemau rheoli stoc, systemau rheoli warws, dogfennau,
mathau o drafndiaeth, gweithlu, telemateg, cyfarpar codi a thrin, offer
cynllunio llwybr, meddalwedd cyfrifiadur, cyfarpar monitro cerbydau

Nodi a monitro'r defnydd o adnoddau logisteg

Datblygwyd gan	Lantra
Dyddiad cymeradwyo	30 Maw 2022
Dyddiad Adolygu Dangosol	30 Maw 2027
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Lantra
RCU gwreiddiol	SFLLO37
Galwedigaethau perthnasol	Gweithrediadau a chynnal a chadw trafndiaeth, Gyrwyr a Gweithredwyr Trafnidiaeth, Warws a Dosbarthu, Rheolwyr Dosbarthu, Storio a Manwerthu, Gweithwyr Cyswllt Proffesiynol Trafnidiaeth
Cyfres/Set	Gweithrediadau Logisteg
Geiriau Allweddol	adnoddau; cynyddu; monitro; cynllunio; gwella